MEDI 2026

# CYLCHLYTHYR LLYTHRENNEDD

## CROESO I'R FLWYDDYN ACADEMAIDD NEWYDD!

Mae darllen wedi'i gysylltu'n gryf â lles, cyflawniadau academaidd, a chyfleoedd bywyd gwell. Dyma pam rydyn ni yn blaenoriaethu darllen yn Ysgol Gyfun Cwm Rhondda. Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, fe wnaethon ni gynnal ffeiriau llyfrau, 'Darllenathon' ar gyfer elusen, ymweliadau gan awduron, taith i Ŵyl y Gelli, ymyraethau darllen, a mwy.

Hefyd, roedden ni wedi gwneud darllen yn rhan allweddol o amser cofrestru ac ym mhob pwnc, gyda disgyblion yn darllen yn unigol ac ar goedd ar draws y cwricwlwm.

Mae disgyblion ym mlwyddyn 7, 8 a 9 yn darllen am 5 munud ar ddechrau pob gwers, felly sicrhewch fod ganddyn nhw lyfr darllen Saesneg a Chymraeg pob dydd.








## BETH SYDD AR Y GORWEL?

- **Erbyn 23ain o Fedi -** Gwnewch gais am gyfle i fod yn rhan o 'The Scholars Programme' gan y 'Brilliant Club' (Blwyddyn 9 a 10). Os yw'n llwyddiannus, bydd disgyblion yn profi dysgu prifysgol gydag ymchwilwyr PhD. Byddant hefyd yn ymweld â phrifysgol i raddio o'r raglen. Bydd manylion am sut i wneud cais yn cael eu rhannu yn y dosbarth. Bydd Blwyddyn 7 ac 8 yn cael y cyfle hwn nes ymlaen yn y flwyddyn academaidd.
- **13eg o Hydref** - Diwrnod Llythrennedd (Blwyddyn 7 ac 8), gyda sesiynau gan Alex Wharton a Siôn Tomos Owen, Aneurin Karadog a Keith Temple.
- **18fed-20fed o Hydref** - Ffair lyfrau Scholastic.
- **Erbyn 11eg o Ragfur** - Her Darllen: *'Drwy gydol y tymor, darllenwch dri llyfr Saesneg a thri llyfr Cymraeg. Cofnodwch nhw yn eich cofnodion darllen yn cofrestru.'*

# Sut ydw i'n gallu cefnogi sgiliau darllen fy mhlentyn?

Gadewch iddyn nhw ddarllen beth sydd o ddiddordeb iddyn nhw. P'un a ydyn nhw'n darllen nofelau, comics, ryseitiau, neu erthyglau newyddion, mae popeth yn cyfri!

Anogwch nhw i ddarllen adref am o leiaf 20 munud pob dydd. Os yw hwn yn ormod i ddechrau, adeiladwch lan yn raddol.

Sicrhewch eu bod yn dod â llyfr darllen Saesneg a Chymraeg i'r ysgol bob dydd.

Cyfyngwch eu hamser sgrin fel eu bod yn fwy tebygol o ddarllen llyfr.

Prynwch lyfrau iddyn nhw fel anrhegion.

Gwnewch ddarllen yn brofiad a rennir - darllenwch ar goedd iddyn nhw, a chaniatáu iddyn nhw ddarllen ar goedd i chi.

Ewch i lyfrgelloedd lleol gyda nhw i ddewis llyfrau newydd a chyffrous.

Gofynnwch gwestiynau agored iddyn nhw am y llyfrau maen nhw'n darllen, fel beth maen nhw'n ei hoffi neu'n ei gasáu, neu ba gymeriad y gallan nhw cydymdeimlo â mwyaf a pham.

Modelwch ddarllen gartref - os ydyn nhw'n eich gweld chi'n darllen, maen nhw'n fwy tebygol o fod yn ddarllenwyr eu hunain!

# Sut ydw i'n gallu cefnogi sgiliau ysgrifennu fy mhlentyn?

Gofynnwch i'ch plentyn ysgrifennu adref, fel dyddiadur neu lythyr i ffrind neu aelod o'r teulu.

Anogwch nhw i ddarllen mwy - mae darllenwyr da yn fwy tebygol o fod yn ysgrifenwyr da!

Anogwch eich plentyn i ddefnyddio'r adnoddau ar BBC Bitesize i'w helpu i wella eu sillafu, eu hatalnodi a'u gramadeg.

Anogwch eich plentyn i ddarllen dros eu hysgrifennu i wirio am unrhyw gamgymeriadau.

Canmolwch ysgrifennu eich plentyn.

Helpwch eich plentyn i ddatblygu ei eirfa drwy:

- ddefnyddio geiriadur i ddiffinio unrhyw eiriau newydd maen nhw'n dod ar draws wrth ddarllen, a'u hysgrifennu nhw mewn banc geiriau
- defnyddio thesawrws i ddarganfod geiriau newydd a diddorol wrth ysgrifennu
- chwarae gemau geiriau, fel Scrabble neu Boggle.

Awgrymwch i'ch plentyn eu bod nhw'n ail-ddrafftio'r hyn maen nhw'n ysgrifennu.

Cynorthwywch eich plentyn gyda'i sillafu drwy ei helpu i:

- ddefnyddio'r strategaeth 'Edrych, Dweud, Gorchuddio, Ysgrifennu, Gwirio' i ymarfer sillafu
- meistroli sillafu'r holl eiriau mwyaf cyffredin yn Saesneg a'r Gymraeg gan ddefnyddio'r strategaeth uchod
- dysgu rheolau, fel mae berfau sydd â'r llythyren 'a' yn y canol fel arfer yn gorffen ag 'u', e.e. canu. rhannu, naddu, talu. Mae berfau sydd â'r llythyren 'o' yn y canol fel arfer yn gorffen ag 'i', e.e. Codi, hoffi, ymolchi, poeni, pobi, llosgi.

# Sut ydw i'n gallu cefnogi sgiliau llafar fy mhlentyn?

Gofynnwch gwestiynau agored i'ch plentyn am ei fywyd a'i farn, fel beth oedd y rhan orau o'i ddiwrnod a pham, neu rywbeth yr oedd yn heriol heddiw.

Trafodwch amrywiaeth o bynciau gwahanol gyda'ch gilydd yn fanwl.

Defnyddiwch y strategaethau geirfa ar y dudalen flaenorol i'w helpu i ddefnyddio ystod eang o eirfa wrth siarad.

Anogwch eich plentyn i siarad yn glir ac mewn brawddegau llawn, gan ddefnyddio gramadeg gywir.

Cyfyngwch ar amser sgrin eich plentyn ar adegau penodol o'r dydd fel y gall ganolbwyntio'n llawn ar siarad a gwrando yn hytrach na chael ei dynnu sylw gan ei sgrin.

Darllenwch lyfrau neu erthyglau gyda'ch gilydd a thrafodwch farn a rhagfynegiadau eich gilydd.

Gofynnwch gwestiynau agored i'ch plentyn am ba lyfrau maen nhw'n eu darllen, ffilmiau maen nhw'n eu gwylio, neu ar ba gerddoriaeth maen nhw'n gwrando. Holwch nhw drwy ofyn iddyn nhw roi rhesymau dros eu barn.